

Cwilt a hanner!



Bore Iau Mawr Melyn yn Siloh

Daeth rhyw hanner cant o oedolion a phlantos bach at ei gilydd yn sesiwn 'Mawr a Bach' Canolfan Gymunedol Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach, ddechrau Mawrth, i ddathlu 'Bore Iau Mawr Melyn'. Roedd llawer wedi gwneud ymdrech i wisgo dilledyn melyn, yn cynnwys sgidiau glaw melyn, a band gwallt cennin Pedr! Cafodd y plant fanana, caws a ffyn bara i fwyta gan eu bod yn felynaidd o ran lliw, a mwynheuodd yr oedolion fisgedi Cheddar a siocled gwynfelyn. Pwrpas y bore oedd codi arian ar gyfer elusen 'Children's Liver Disease Foundation', gan fod un o aelodau'r grŵp wedi elwa o waith y mudiad ers ei genedigaeth, gyda phroblemau iechyd, ddwy flynedd yn ôl. Daeth Alys, gyda'i chwaer, Grace, yn gyson i'n grŵp gyda'i theulu ers ei bod yn ddeufis oed, ac y mae newydd symud ymlaen i Gylch Meithrin Lleol. Ar ôl gwneud mwgwd



llew (melyn!), clywodd y plant stori Daniel a ffau'r llewod, cyn y sesiwn canu bywiog. Roedd y plant wrth eu bodd wrth fynd adre a chael cyw melyn siocled yn syrpreis gan fam Alys! Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y bore – llwyddasom godi dros £172.
Tamsin Llwyd Graves

Cwilt y clawr

Diolch i Sian Mullaney am ysgrifennu pwt am y cwilt hardd sy'n addurno clawr y rhifyn hwn. Gwelwn, wrth ddarllen yr erthygl, fod Sian yn ddysgwraig lwyddiannus iawn. Bydd rhai ohonom yn cofio tad Sian, sef Mr D. W. Davies, a'i mam Mrs. E. C. (Betty) Davies. Bu "D. W.", fel y cyfeirir ato'n hoffus, yn Swyddog Addysg Ranbarthol dros ardal Caerffili a Gelligaer tan ddechrau'r saithdegau. Bu'n gyfaill ffyddlon i'r Gymraeg a chwaraeodd ran bwysig yn natblygiad cynnar Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni.

"Mae'r cwilt gwely dwbl ar ffurf ffenestr liw yn hongian yng nghapel Siloh Ystrad Mynach, sydd erbyn hyn yn Ganolfan Gymunedol Gristnogol Siloh.

Fe es i'r capel pan oeddwn i'n fabi gyda'r teulu ac roedd fy rhieni yn ddiaconiaid.

Rydw i'n dal i fyw yn Ystrad Mynach ac rydw i'n falch o fod yn aelod o bwyllgor y ganolfan.

Ar ôl i mi ymddeol o ddysgu, dechreuais gymryd diddordeb mewn cwiltio ac ymunais â grŵp cwiltio Ystrad Mynach. Penderfynais wneud y cwilt er cof am fy rhieni.

Mae pob bloc wedi ei wneud yn unigol gan ddefnyddio dull gwnïo dros bapur. Maen nhw wedyn yn cael eu cysylltu gyda "sashing" a borderi yn cael eu hychwanegu a'u cwiltio.

Os edrychwch yn graff fe welwch fod croes yn sefyll allan mewn lliw melyn. Pwy sy'n gallu gweld y camgymeriad?!"

Cofio Tom Vale, *Lansbury Close, Caerffili*

Un o blant Abercrâf oedd Tom Vale, ond bu'n byw yng Nghaerffili am ran helaeth o'i fywyd. Bu farw ychydig ar ôl dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed, wedi dioddef rhai misoedd o salwch. Cyn hynny, bu'n ffodus yn ei iechyd, a mwynhaodd fywyd llawn a braf yng nghwmni ei annwyl briod Meinir a'u mab Ceri.

Ar ôl cyfnod addysgol, cafodd ei alw i'r fyddin gan wasanaethu yno am bedair blynedd. Yn dilyn hynny aeth, fel llawer arall i Goleg y Drindod a'i hyfforddi'n athro. Wedi ei gymhwyso i'r swydd o fod yn athro gwaith coed, bu'n dysgu yng Nghaerlŷr, y Cotswolds a Llundain, cyn dod yn ôl i Gymru a gweithio yn Aberhonddu, ym Mhenganam a Rhydfelen. Roedd yn aelod o staff gwreiddiol yr ysgol newydd, ac yn gyfrifol gydag eraill am osod safon a threfn Rhydfelen. Ymhen amser, derbyniodd swydd ymgynghorydd sirol CDT, ac roedd wrth ei fodd yn y gwaith hwnnw.

O ran ei ddiddordebau, roedd yn naturiol wrth ei fodd gyda gwaith coed ac yn selog gyda Toc H. Cafodd flas ar wrando bandiau pres a gwylio rygbi. Yng nghwmni Lily Richards a Moyra Davies bu'n meithrin celfyddyd y caligraffydd ac yn ddiweddarach cafodd fwynhad ar waith peintio. Roedd yn mwynhau sgwrsio a



hamddena, ond ei falchder pennaf oedd dedwyddwch ei briodas gyda Meinir a'r berthynas agos rhyngddo a'i fab Ceri a'i briod yntau Sue. Roedd yn ŵr cadarn o gorff ac yn glir ei argyhoeddiadau. Cyfrannodd yn sylweddol i sawl maes, a diolchwn am y fraint o'i adnabod.

Diwrnod Ewyllys Da

Flynnyddoedd yn ôl dechreuodd Mrs Sian John, Arweinydd Cwricwlaidd Addysg Grefyddol, drefnu bod disgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili yn gyrru cardiau allan i gofio Dydd Ewyllys Da.

Bu'r ysgol hefyd yn annog ysgolion ac unigolion eraill i wneud yr un fath, ac yn ei anterth bu ysgolion siroedd Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont a Merthyr yn gyrru

cardiau i'w gilydd. Yr arfer yn Ysgol Gymraeg Caerffili oedd llunio cardiau ar gyfer ysgolion eraill, llywodraethwyr, aelodau'r Gymdeithas Rieni a chyfeillion eraill yr ysgol. Ond ychydig o ysgolion sy'n gwneud hynny erbyn hyn.

Hoffai pwyllgor "Cwmni" weld adfywio'r arfer a byddwn yn cofio'r achlysur yn rhifyn mis Mai gan, er enghraifft, gynnwys erthygl am y Parchedig Gwilym Davies o Fedlinog a ddechreuodd y syniad. Y dyddiad, wrth gwrs, yw'r 18fed o Fai.

Aelodau Urdd Gobaith Cymru Sir Caerffili fydd yn gyfrifol am Neges Ewyllys Da eleni. Y traddodiad, mae'n debyg, yw bod plant y sir sy'n croesawu'r eisteddfod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o lunio a lledaenu'r neges. Gobeithio y cawn ni argraffu eu neges nhw yn y papur.

Gawn ni apelio, felly, at ddarllenwyr "Cwmni", yn ysgolion, mudiadau ac unigolion i fwrw ati i lunio neges a'i gyrru at gyfeillion, perthnasau ac eraill? Gallai hyn fod ar bapur neu yn electronig. Mae chwech wythnos gennych i wneud.



Tacsi Gorsaf Caerffili

Mae un o gyn ddisgyblion Ysgolion Cymraeg yr ardal am arfer ei Gymraeg a, thrwy wneud hynny, hybu defnydd yr iaith yn yr ardal.

Bu Keith Harper yn ddisgybl yn Uned Coedybrain, Llanbradach, cyn mynd ymlaen i Ysgol Gymraeg Caerffili ac yna i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Mae bellach yn datblygu ei fusnes a'i iaith drwy redeg cwmni tacsî. Yn ystod y dydd mae'n helpu cwmni ei frawd gan ddisgwyl galwadau ffôn cyn iddo wedyn fynd lan ar y *rank* ger Gorsaf Caerffili gyda'r hwyr.

Nid yn unig mae'r fusnes yn uni-gryw drwy gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg ond hwn yw'r unig gwmni, hyd y gwyddom, sy'n galluogi'r cwsmeriaid i dalu drwy gerdyn debyd neu gerdyn credyd. Oes, mae ganddo beiriant yn y car, ynghyd â



system deledu cyfrwng cyfyng. Technoleg ac iaith yn un pecyn cyfleus!

Prin yw cyfle disgyblion ein hysgolion Cymraeg i ddefnyddio'r iaith. Y canlyniad i hyn yw iddyn nhw golli hyder drwy ddiffyg ymarfer. Wel, dyma gyfle i ni i gyd helpu yn y cyfeiriad hwn drwy hurio tacsî yn y Gymraeg a mwynhau sgwrs yn yr iaith yn ystod ein taith.

Mae Keith wedi gadael yr ysgol ers rhyw 20 mlynedd ond eto'n barod i fentro arni i siarad Cymraeg gyda dieithriaid. Gallwn ni, siaradwyr Cymraeg rhoi hwb sylweddol i'r iaith drwy gefnogi'r gŵr ifanc yma.

Gellir cysylltu â Keith ar 02922 362364 neu 07914 355195. Gallwch hefyd fynegi barn am safon y gwasanaeth a dilyn hynt a helynt y cwmni ar Weplyfr:

www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Clwb Darllen Caerffili

Mae Clwb Darllen Caerffili (dan nawdd y Fenter Iaith) yn cwrdd ar ail ddydd Mawrth bob mis yn llyfrgell Caerffili. Yn ddiweddar 'dyn ni wedi bod yn darllen cerddi o *Hoff Gerddi Cymru* a straeon byrion o *20 Stori Fer Cyfrol 2*. Mae'r lleoliad yn wych gyda golygfa odidog dros doeau'r dref o'r stafell yn y tŵr ble 'dyn ni'n darllen a thrafod yn hamddenol dros baned o de neu goffi wedi'i ddarparu gan staff y llyfrgell. 'Dyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr y croeso gan staff y llyfrgell sy wedi bod yn gefnogol iawn i ni dros y blynnyddoedd.

'Dyn ni'n edrych ymlaen at ddechrau ar stori newydd ym mis Mai, sef *Y Cylch Brith*, addasiad gan Eurwyn Pierce Jones o *The Speckled Band* gan Syr Arthur Conan Doyle, stori gyntaf Sherlock Holmes i ymddangos yn y Gymraeg.

Hoffech chi ymuno â ni? Mae'r clwb darllen yn addas i ddysgwyr eithaf profiadol a Chymry Cymraeg. Cyfarfodydd nesa: 14 Ebrill a 12 Mai 1.30 tan 3.00 ar 2il lawr y llyfrgell. Am fanylion pellach, cysylltwch â Jan :


JanPenney@aol.com neu 02920889827



Dafydd Islwyn i dderbyn Gwobr Cyfraniad Oes Cwlm Cyhoeddwr Cymru

Un o uchafbwyntiau Gŵyl Bedwen Lyfrau 2015, yr ŵyl lyfrau Gymraeg a gynhelir yng Nghanolfan Soar, Merthyr ar 2 Mai, fydd cyflwyno Gwobr Cyfraniad Oes i Dafydd Islwyn un o gyfranwyr rheolaidd "Cwmni". Eleni, a hithau'n 35 mlynedd ers iddo gymryd yr awenau fel Ysgrifennydd Barddas, y Gymdeithas Gerdd Dafod, mae'n hyfrydwch gan Gwlm Cyhoeddwr Cymru gyflwyno'r wobwr i un sydd wedi cyfrannu'n ddiflino at gynnal y diwylliant Cymraeg yng Nghwm Rhymni – a thu hwnt – a hynny ers blyneddau mawr.

Cafwyd cyfle i dalu teyrnged i Islwyn yn Eisteddfod Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010 am ei gyfraniad fel bardd a hefyd am ei gyfraniad fel Cadeirydd Cylch Llenyddol Bro Elyrch. Mae ei hoffter o gasglu englynion wedi bod yn ddiddordeb iddo gydol ei oes ac yn wir, disgrifiwyd yr englyn ganddo unwaith fel 'un o saith rhyfeddod y Pethe yng Nghymru'. Cyhoeddwyd ffrwyth ei waith gan Gyhoeddiadau Barddas yn y cyfrolau 100 o



Englynion (2009) ac *Englynion y Genedlaethol 1900 – 1999* (2012), a chyhoeddodd gyfrol o'i gerddi, *Dal Diferion* yn ogystal. Eleni, fel erioed, bydd Dafydd Islwyn wrth fwrdd Ymryson y Beirdd yn y Babell Lân yn Eisteddfod Maldwyn yn cadw'r marciau, yn un o wir geidwaid ein diwylliant.



BedwenLyfrau
Dydd Sadwrn, Mai 2 2015
10.30 tan hwyr y prynhawn Canolfan Soar
Merthyr Tudful

Thema: Hanes Cymru
Lansio LLYFRAU NEWYDD,
siop gwerthu llyfrau a llu o
DDIGWYDDIADAU i blant
ac oedolion, SIARADWYR
RHUGL a DYSGWYR.

Pob digwyddiad
AM DDIM!


Uchafbwyntiau'n cynnwys:
Dafydd Islwyn, enillydd Gwobr Cyfraniad Oes Cwlm
Cyhoeddwr Cymru 2015, yn sgwrsio am ei hoff
englynion.
Gwyn Griffiths yn lansio ei Hunangofiant *O'r Berth i'r Bont*
Dyfed Elis-Gruffydd a golygfeydd gorau'r Cymoedd
Holi nofelwyr gyda Catrin Beard
Sesiwn ar gyfer dysgwyr gyda Lois Arnold ac eraill
Trafod sut i gyflwyno hanes cyfoes i bobl ifanc
Dathlu canmlwyddiant geni T. Llew Jones
Cystadleuaeth farddoniaeth Bardd Plant Cymru
Catrin Stevens a Hanes Atgas
Sali Mali, Peppa Pinc, Sam Tân
Heini o S4C
Côr plant Ysgol Santes Tudful

A LLAWER MWY!










Ysgol y Castell

Yr Eisteddfod Gylch

Cwpan yr eisteddfod

Perfformiadau gwefreiddiol! Fe wnaethom dderbyn y cwpan eleni eto am yr ysgol â'r nifer fwyaf o bwyntiau am y degfed tro yn olynol.

Tarian yr eisteddfod

Llongyfarchiadau arbennig i Molly Williams am dderbyn y darian am yr unigolyn gyda'r perfformiad cerddorol gorau yn yr Eisteddfod Gylch. Llongyfarchiadau i'r holl blant a fu yn cystadlu. Dyma'r canlyniadau.

Yn gyntaf Molly Williams yn y gystadleuaeth Unawd dan 8 ac yn y Llefaru dan 8. Harriet Wright-Nicholas yn y Llefaru dan 10 ac i William Dewi yn y Llefaru dan 12 a hefyd i'r Côr.

Yn ail roedd George Vaughan yn llefaru dan 10 a hefyd y Parti Unsain.

Yn drydydd Evie Shatlock yn yr Unawd dan 8, Lily Howells yn yr Unawd dan 12 a hefyd William Dewi a Lily Howells yn y Ddeuawd.

Perfformiadau Gwych: Esmé Rose - Unawd - 8, Megan Morris - Unawd dan 10, Harriet Wright-Nicholas - Unawd dan 10, Elen James - Unawd - 12, Aneurin Thomas - Unawd - 12, Elen James - Llefaru -12, Tayla Gallagher - Alaw Werin, Elen James - Alaw Werin, Elen James ac Aneurin Thomas - Deuawd a'r Parti Llefaru a'r Ymgom.

Diolch i Miss Gwynant am fod yn gyfeilydd swyddogol yr ysgol.



Tîm Blwyddyn 3 a 4

Llongyfarchiadau! 1af i dîm **Cwis Llyfrau** Blwyddyn 3 a 4 yn y gystadleuaeth Sirol. Aelodau'r tîm oedd Harriet Wright-Nicholas, Ellie Francis, William Hughes a Jack O'Connell. Llongyfarchiadau!- 1af i dîm Cwis Llyfrau Plant Blwyddyn 5 a 6 yn y gystadleuaeth Sirol. Aelodau'r tîm oedd Becca Evans-Lugg, Elen James, Hannah Nichols a William Dewi.



Tîm Blwyddyn 5 a 6

Eisteddfod yr Ysgol

Ddydd Gŵyl Ddewi cadeiriwyd Elen James. Daeth Lorna Hudson yn ail a Becca Evans-Lugg ac Owen Wilding yn gydradd-drydydd. Diolch i Anwen Hill y beirniad llenyddol. Roedd dros bedwar cant o storiâu a cherddi ganddi i'w darllen. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr. Diolch i blant blwyddyn pump am drefnu'r seremoni.

Darllen a mwy o ddarllen

Diwrnod y Llyfr Mawrth 5ed

Diwrnod hwylus dros ben gyda phlant hyd yn oed yn mynd allan i'r awyr agored gyda'u llyfrau! Roedd yr ysgol yn fwrwm o liw a chymeriadau Sali Mali, Sam Tân, Twm Siôn Cati, Barti Ddu, Jac y Jwc, Jini a Mrs Wishi Washi. yn eu plith.

Eisteddfod y Cymoedd

Pleser yw cyhoeddi y bydd Eisteddfod y Cymoedd yn cynnal Cyngerdd Enillwyr ar gyfer y rhai a fu'n llwyddiannus yn y Genedlaethol eleni. Ac "enillwyr" wrth gwrs, yw unrhyw unigolyn neu grŵp a enillodd eu ffordd i'r eisteddfod yn Llancaia Fawr.

Cynhelir y gyngerdd nos Fawrth, 30ain o Fehefin, yn Safle'r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili, gan ddechrau am 6:30.

Er mwyn sicrhau llwyddiant Eisteddfod yr Urdd yn ein hardal eleni mae nifer o noddwyr Eisteddfod y Cymoedd wedi cyfeirio'u nawdd tuag at ofynion yr Urdd. Ac mae hyn wedi gadael ein heisteddfod leol yn brin o arian. Rydym yn apelio, felly, am gymorth gan unigolion neu grwpiau i sicrhau dyfodol a llwyddiant yr eisteddfod eleni, sydd i'w chynnal nos Wener, 16eg o Hydref yn Ysgol Lewis i Ferched.

Dylid gyrru unrhyw gyfraniadau (sieciau'n daladwy i "Eisteddfod y Cymoedd") at Gadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod,

Y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2BW

Alex a Carly Wilson Gray

Llongyfarchiadau i Alex a Carly Wilson Gray ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Maent wedi dychwelyd i fyw yn Rhodfa'r Tywysog, (Prince's Avenue i lawer) ac yn edrych ymlaen at gyfrannu i fywyd byrlymus yng Nghaerffili. Mae Carly yn hannu o Gaerffili ac wedi ei haddysgu yn Ysgolion Cymraeg y dref a'r cwm.

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Adeg y Pasg bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ffarfelio â Sara Davies un o'r prifathrawon cynorthwyol, sydd wedi derbyn swydd gyda CBAC. Yn ddiweddar hi fu'n arwain gyda gwaith y Fagoloriaeth Gymraeg yn yr ysgol a dyma fydd hi'n ei gyfrannu i'r Cydbwyllgor Addysg. Diolchwn iddi am ei chyfraniad yng Nghwm Rhymni a dymuno'n dda iddi yn ei gyrfa newydd.

Noson fawr gyda Radio Feynman

Cafwyd noson ddifyr iawn yng Nghlwb Golff Caerffili nos Wener, 13eg o Fawrth, noswyl y gêm fawr rhwng Cymru a'r Iwerddon. Yr adloniant oedd y band Radio Feynman a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Cân i Gymru rhai blynyddoedd yn ôl.

Yn canu a chwarae'r gitâr oedd Gethin Mills a'i frawd Aled yn canu y tu ôl iddo tra'n chwarae'r drymiau. Y ddau frawd erbyn hyn, gyda llaw, yn byw yn yr un stryd yn Nhrelluest (Grangetown), Caerdydd. Ynghyd a'r brodyr mae Rob Light a Gareth Madeley yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a hefyd yn chwarae gitâr. Ar y gitâr fas roedd Geraint Francis a fu yn Ysgol Glan Taf ond bydd nifer o'n darllenwyr yn gwybod am y teulu oherwydd ei fam yw Gwenda, chwaer Eirlys Ashton, Gelligaer. Codi arian ar gyfer pwyllgor Cerdd Dant Eisteddfod yr

Urdd oedd y nod ac mae'n diolch yn fawr i Richard a Nia Parsons am drefnu'r lleoliad, y raffl a'r ocsiwn ac am fod wrthi mor ddiwyd yn gwerthu tocynnau.

Codwyd dros fil o bunnau.



Beth sy'n digwydd i gylchdro Pwll y Pant ????

Gwelir yn y llun y gwaith mawr sydd yn mynd yn ei flaen i ledaenu'r lonydd sy'n arwain tuag at gylchdro Pwll y Pant. Bydd hyn yn arwain at un lôn wedi'i neilltuo ar gyfer ceir sydd am adael y dref a'i throi i fyni'r allt tuag at yr Hendre. Yn yr un modd bydd lonydd ychwanegol yn caniatáu i drafnidiaeth sy'n teithio i lawr y cwm droi tuag at Bedwas, ac yn hwyluso'r sawl sy'n teithio o Fedwas i droi i'r chwith am dre Caerffili.

Mae sôn hefyd am wella'r modd y gall cerddwyr groesi'r heolydd prysur hyn, yn enwedig o Bwll y Pant i Bontygwindy. Bydd goleuadau traffig yno yn y pen draw, er nad yw'n glir eto ai goleuadau ar adegau prysur yn unig fydd y rhain.

Yn sicr, mae galw am liniaru ar y tagfeydd traffig sydd yn dod yn nodwedd gynyddol o heolydd gwaelod Cwm Rhymni. Yn y boreau mae ciw hir o gylchdro Pwll y Pant, nôl i'r cylchdro cyntaf am Lanbradach a rhyw ganllath ymhellach yn ôl wedyn. Gyda'r hwyr gwelir y drafnidiaeth yn nadreddu yn ôl tuag at dafarn y Pontygwindy yn disgwyl eu tro i fentro ar y cylchdro prysur.

Tra bydd y newidiadau yn sicr o esmwytho rhywfaint ar y tagfeydd, dydyn nhw ddim yn mynd i ddod â nhw i ben. Yn enwedig tra bo mwy a mwy o geir yn dod ar yr heolydd a hynny, i raddau helaeth, am ein bod yn gweld codi mwy a mwy o dai.

Beth yw'r gobaith am y dyfodol felly? Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, yn ei ddoethineb, wedi ailagor y Cynllun Datblygu Lleol fel bo adeiladwyr yn gallu gosod cais gerbron i adeiladu mwy o dai.

Ble bydd y rhain yn mynd?

Mae pryder y bydd ystad Hendredenni yn





ymestyn draw yn agosach fyth i Abertridwr. Mae datblygwyr wedi bod yn llygadu'r tir lle bu'r *tar plant* y tu ôl i orsaf y dre ers tro byd. Yn yr un modd tiroedd sy'n ymestyn allan tuag at Rhydri. Dim ond rhai o'r safleoedd, y mannau mwyaf amlwg, yw'r rhain ond, mae'n debyg, bod mannau eraill dan y chwyddwydr hefyd.

Faint yn fwy o ddatblygu all y dref a'i chyffiniau ymdopi ag e?

Tra bo gwir bryder am yr oedi sydd wrth i geir o ben uchaf Penyrheol a Chwm yr Aber giwio i geisio cyrraedd ffordd osgoi'r dref, mae yna ffactor arall i'w hystyried. Pan gafwyd arian, nôl yn yr wythdegau, i glirio tipiau Glofa'r Windsor yn Abertridwr, roedd yn angenrheidiol cyfiawnhau'r gwariant drwy neilltuo'r tir ar gyfer defnydd penodol. Ac er bodloni'r WDA ar y pryd, rhoddwyd caniatâd cynllunio i 250 - 300 o dai ar y safle. Faint o bwysedd mae'r rhain yn mynd i roi ar gylchdro'r Bowls a'r gyffordd ar waelod Hendredenni?

Dyw'r papur hwn, wrth gwrs, ddim yn wleidyddol ond, o ystyried y ffeithiau hyn oni ddylem, fel dinasyddion cyfrifol, gysylltu â'n cynghorwyr ac efallai gyrru gair neu ddau at y Cynllunwyr yn Nhredomen i fynegi'n pryderon?

Atebion y posau



1.	Cowlyd
2.	Tegid
3.	Padarn + Peris
4.	Llyn y Fan Fach
5.	Nantlle
6.	Florida
7.	Rwsia
8.	Titicaca
9.	Lough Neagh (Gogledd Iwerddon)
10.	Tamganyika
11.	Michigan
12.	Pontchartrain

Dyma'r ddau lythyr olaf yn y gyfres gan Gruffudd Gwyn. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi mwy o waith yr awdur talentog hwn yn y dyfodol.

15 Stryd y Bedol,
Y Ro Wen,
Abergofiant,
Meiriondir.
1af o Ionawr 1915

Betsi fach,

Mae canu per yr adar wedi diflannu erbyn hyn hyd yn oed. Ac nid oes gennyf innau galon i ladd cyd-ddyn yn ei gnawd, dihiryn neu beidio. Galw fi'n gachgi, yn ddiawl hunanol, ond nid i'r diben yma bûm fyw i gychwyn. Calon bur sy'n curo yn fy mynwes, nid calon lygredig na wŷr ei bwrpas yn hollol. Rwy'n gwybod fod rhagor rhwng tir a thir. Angel, rwyf wedi bod mor hurt yn y gorffennol, yn methu dirnad ai achos da ai peidio ydy'r cynigion sy'n dod i'm rhan, ac mae hyn yn un smonach mawr o ganlyniad i hynny. Ydw i'n siarad yn wallgof? Teimlaf felly, ac er bod sawl ffordd allan, sut mae dianc heb faich euogrwydd?

Deuthum i'r casgliad mai rhith creulon oedd y 'balchder' a deimlwn wrth wasanaethu fy ngwlad. Fy ngwlad. Pa wlad yn union? Prydain? Yr ynysoedd efallai, ond nid yr un cochni sydd yng ngwae y bobl. Mor ffôl y bûm, angel, wedi fy nghyflyru fel y lleill dan law y Brawd Mawr. Mae'r angerdd a deimlais mor gryf wrth deithio drwy'r wlad estron hon ar y dechrau wedi pylu, wedi diflannu! Cans onid Lloegr sy'n ymladd hon, a hynny yn enw rheolaeth? Nid fi, y Cymro bach. Mae hanes yn fy ngogwyddo tuag at gasgliad felly. Edrych ar y moroedd ers talwm a'u hawdurdod na ellid dianc rhagddo. Yr awch am reolaeth – imperialaeth ar y raddfa fawr. Ni allaf gydag un gronyn o'm cydwybod deimlo'r un fath â nhw.

Mae'n debyg fod yna fardd o Gymro'n ymladd yma sydd o'r un ardal, o'r un anian â mi. Y mae wedi ysgrifennu am "waed yn gymysg â glaw", oes gwell darlun o lanastr a dinistr? Teimlaf yma fod "Duw ar drai ar orwel pell" os wnaiff y bardd faddau i mi am ddwyn ei eiriau. Mae'n feistr corn ar fynegi'i bryder a'i ofnau, mae'n dyheu fel fi i beidio bod yma yn awr. "Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng", ac yn wir mae'r lle yma'n drewi o farwolaeth. Mae'n rhaid imi ganlyn y bardd hwn, a cheisio rhannu fy mhroblemau ag ef. O mor gyfyng fy nghyfyng-gyngor! Pe baet ti yma, rhannwn fy ngofidiau â thi, fy angel i!

Does dim yn weddill ond daearyddiaeth ymhob man. Mae lleisiau bychain yn gwatwar yn fy mhen, ac wrth stelcian fel llwfrgi'n y cysgodion y salaf y teimlaf. Yn lle'r ehofnder a fu o'r blaen mae rhyw benysgafnder ofnadwy. Minnau'r gwanaf, a heb fod ar faes y gâd eto! Mae'r peth yn stwmp ar fy stumog. Pe gallwn fwrw 'mol i rywun, unrhywun! Un enaid byw yn y lle melltigedig yma a wŷr sut mae gwella rhywbeth fel hyn. Y boen, mae'n dirdynnu, cur pen oesol, na, gwaeth na hynny, realiti maluriedig. Ie! Y byd a'i ben i waered

Gwyddost eisoes nad oedd calon gennyf i ladd dyn, ond os na wna mi fydd y cylch dieflig yma'n parhau i droi'n chwyrn am fy mhen. Gwae fi! Mae galwad y pridd wedi cymryd Guto, cyfaill mor addfwyn a fu farw yn enw dim o bwys iddo ef ei hun! Mae hanner dynion y ffosydd yma wedi mynd ar Dir Neb, rhwng y baw a'r weiren bigog. Mae'n ddigon i godi cyfog ar ddyn, a'i droi yn erbyn gwareiddiad. Rydym ni o dan law y Brawd Mawr, paid ti byth ag anghofio hynny tra byddi fyw! Ffo rhag y gorthrwm! Dianc rhagddo, dianc rhag y llaw!

Angel, mae'r diwedd ar ddod, teimlaf hynny ym mêr fy esgyrn. A boed ddiwedd hapus neu drist, fy nghariad sydd eiddot hyd dragwyddoldeb.

Hiraeth, hiraeth, cilia, cilia
Paid â phoeni mor drwm arna'.

Wmffre

Awdurdod y Fyddin Brydeinig,
Llundain.

15 Stryd y Bedol,
Y Ro Wen,
Abergofiant
Meiriondir.

Annwyl Betsi Mai Jones,

Mae'n flin gennyf adrodd wrthy ch am farwolaeth hynod anffodus eich gŵr a thad eich plentyn oblegid iddo gael ei ladd ar wasanaeth (LLAW). Teimlaf mai dyletswydd ydyw i roi gwybod yn bersonol ichi, gan imi ddarllen ei lythyr olaf atoch cyn ei yrru. Maddeuwch i mi. Roedd yn hynod ddiwyd ac yn rhan bwysig o'i gatrwd. Serch hynny methodd ymdopi ag amodau'r fyddin, ac nid oedd ganddo'r cyflwr meddyliol cywir i gyfrannu at ymladd dros ei wlad.

Ar yr ail o Ionawr 1915 dringodd Wmffre Morys Jones allan o'r ffos a cherdded yn ddi-arf dros Dir Neb. Saethwyd yn farw funudau yn ddiweddarach. Adroddaf yn edifar.

Yn gywir,

Cyrnol Tim Husslock

Clecs Bro Sannan

Cadeirio 2015

Llongyfarchiadau mawr i Eilir Teagle ar ennill cystadleuaeth y Gadair eleni am ei cherdd “Cymru i mi...”. Roedd safon uchel iawn a llongyfarchiadau i Katie Abblett am ddod yn ail ac Ellie Jones am gael trydydd. Ond “Iâr Fach yr Haul” oedd yn fuddugol:

Cymru i mi

*Cymru - cymylau tew gwyn
Uwchben moroedd sy'n cnoi mynyddoedd gwyrdd.
Moroedd ar daith o bedwar ban byd.*

*Y ddraig fflamgoch enwog
Yn anadlu ein hiaith.
Milwyr a rhyfelwyr yn gwrthdaro
Dros anrhydedd.*

*Yr haul clauerwyn yn tywynnu-cenhinen bedr
Uwchben cynefin cewri enwog, cantorion ac enwogion.*

Llosga fy nghalon a balchder.

*Teimlaf fel draig.
A'r iaith yn ffynnu am byth.*

Eglwys Sant Sannan



Mae'r ysgol wrth gwrs wedi ei henwi ar ôl y sant yma ond prin iawn yw'r wybodaeth amdano. Mae'n debyg ei fod yn teithio drwy Gymru ar yr un adeg â Dewi Sant ac wedi ymweld â'r ardal hon. Pan gafodd groeso cynnes a lluniaeth gan hen wraig fe adawodd drwy ei chyfarch â'r geiriau, “Budd well i ti!” Ac wrth gwrs o'r geiriau yma fe gafodd Bedwellte ei enwi. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiad agos gyda'r eglwys hardd ar ben y mynydd ac wedi cael ffenest fewnol arbennig o hardd sy'n arddangos yr adeilad trawiadol. Buodd ein disgyblion yn canu yn yr eglwys fore dydd Gŵyl Ddewi. Diolch i swyddogion yr eglwys am y cyfle i ddysgu ychydig o hanes yr ardal.

Chwaraeon yr Urdd

Llongyfarchiadau cynnes i dimau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd yr ysgol am eu llwyddiant yn nhwrnameintiau'r Urdd. Hefyd llongyfarchiadau i Eilir Teagle Blwyddyn 6 a Gabriella Bowen Blwyddyn 4 ar gyrraedd rownd derfynol nofio'r Urdd yng Nghaerdydd.



*Llenorion buddugol 2015
Eilir, Katie a Ellie*

Mwy o ddathlu!

Llongyfarchiadau hefyd i barti unsain, y ddau grŵp ymgom a'r parti llefaru ar eu buddugoliaethau yn yr Eisteddfod Gylch, a phob lwc iddynt yn y rownd nesaf!



Estyn llaw

Mae bwrlwm o weithgareddau wedi eu cynnal yn yr ysgol yn ystod y tymor i godi arian ar gyfer amrywiaeth eang o elusennau. Mae'r rhain yn cynnwys "Diwrnod gwyrdd a melyn" pan gafodd pob plentyn y cyfle i blannu Cenhinen Bedr a dylunio pot unigryw i'w dal. Llwyddom i godi £150 ar gyfer elusen Marie Curie. Cawsom ymateb brwd hefyd wrth godi arian ar gyfer achos lleol, sef, yr hospis yn y cymoedd. Bu un o'n rhieni yn nofio 100 hyd mewn awr a phum munud. Cawsom sbort mawr yn gwisgo fel "Cymry Cŵl" ar gyfer diwrnod y trwynau coch, ac hefyd fel ein hoff gymeriadau llyfr ar Ddiwrnod y Llyfrau. Hyn oll yng nghanol bwrlwm eisteddfod!

Gwobr ysgrifennu

Llongyfarchiadau i Eilir Teagle ar ennill gwobr gyntaf yng nghystadleuaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol trwy ysgrifennu stori fer ar thema "Byd Natur". Cafodd wobr anhygoel, sef print gwreiddiol gan arlunydd enwog yn dangos y tymhorau.

*Y parti unsain
buddugol*



Eilir Teagle â'i gwobr fendigedig

Gwobr Balchder Bro



*Dyma rai o dywysogesau pertaf Cymru
yn canu i blant Bro Sannan!*

Mae'r ysgol wedi ennill gwobr arall yn y gystadleuaeth hon am ein harddangosfa newydd sy'n dehongli hanes lleol Cwm Bargod a'r newidiadau ysgubol a wnaethpwyd yn ddiweddar yn sgil agor Glaswelltiroedd Aberbargod. Mae'r ardal y tu ôl i'r ysgol erbyn hyn wedi ei henwi yn ardal "S.S.I" ar ôl darganfod math prin ac arbennig o bili pala ar y tir, y "Royal Marsh Fritillery". Mae'r ganolfan addysg sydd yno yn cynnig cyfleoedd gwyh i'r plant i weithio y tu fas, gyda ChA2 ynghlwm mewn prosiect i annog mwy o drychfilod i'r glaswelltiroedd yn y blynnyddoedd sydd i ddod.





Hanes Ysgol Gynradd Coed y Brain

gan Gwyn Griffiths

Peth amser yn ôl fe ges gyfle yn Archifdy Morgannwg i bori drwy lyfr log Ysgol Elfennol/ Gynradd Coed y Brain ym mlynnyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf. Agorwyd yr ysgol ar Fedi'r 3ydd 1900 yn dilyn rhodd o'r tir gan Capten De Winton o Fferm Coed y Brain.

Yn anffodus, er i'r ysgol agor yn swyddogol ar y dyddiad yna, bu'r ysgol ar gau am y saith diwrnod nesaf gan nad oedd digon o nwyddau ac offer angenrheidiol (fel cadeiriau a desgiau) wedi cyrraedd. Mae'n ddiddorol cymharu costau addysg yn yr adeg honno â chostau addysg heddiw. Ar Hydref 1af 1915 apwyntiwyd Miss Lilian Staniforth yn "Certified Mistress" ar gyflog o £85 y flwyddyn. Roedd cyflog athrawon benywaidd yn llawer llai na chyflog y dynion yr adeg yma. Hefyd, byddai'n rhaid i athrawon benywaidd adael eu swydd unwaith iddynt briodi. Er enghraifft, bu'n rhaid i Mrs Richards (né Warren) adael ei swydd yn ystod gwyliau'r haf 1916 ar orchymyn y pwyllgor rheoli am iddi briodi.

Erbyn 1925 roedd gwelliant wedi bod yng nghyflog athrawon. Apwyntiwyd Edmund Evans o Fwthyn Pwll y Pant yn y flwyddyn honno fel "Certified Assistant" ar gyflog o £183 swllt a 10 ceiniog. Roedd hyn wedi iddo hyfforddi yn y Coleg Normal, Bangor a dysgu yn Nelson am gyfnod. Costau eraill sy'n ddiddorol i'w nodi yw costau fel glanhau simneiau'r ysgol. Yn 1912 gosodwyd pris o 3½ ceiniog am lanhau pob simnai. Hefyd yn yr un flwyddyn roedd Mr Herbert o Stryd y Farchnad Caerffili yn codi ¼c am atgyweirio pob cloc ar bob ymweliad â'r ysgol.

Mae sawl tebygrwydd rhwng yr addysg ar

droad y ganrif â'r addysg yn ein hysgolion heddiw. Dyletswydd y pennaeth oedd monitro'r gwaith yn ofalus a sicrhau bod y safonau yn uchel ym mhob maes o'r cwricwlwm - o lawysgrifen i lefaru ac o "drill" i rifydddeg. Yn ôl y llyfr log mae'n debyg i'r ysgol ddisgwyl ymweliad gan Arolygwr ei Mawrhydi yn flynyddol, yn wahanol iawn i'r ymweliadau bob chwe mlynedd sy'n digwydd heddiw. Yn 1902 teithiodd yr Arolygwr William Edwards o Gaerdydd i Lanbradach ar y trê. O ystyried fod yr ysgol yn orlawn yr adeg yma (dau ddosbarth o 79 a 49), roedd sylwadau'r Arolygwr am y prifathro Mr Thomas Moses a'i staff yn galonogol:

"All that can be said on this occasion is that the master has done his best for the children under the most serious difficulties. It must be a great strain on him and his assistants to teach in rooms that are so overcrowded and it is very creditable to them that the work is as good as it is and that order is so well maintained."

Mae'n ychwanegu: "Writing is not so good as it would be if children had room to sit".

Yn ychwanegol i'r ysgol fod yn orlawn roedd gan Mr Moses druan broblemau staffio hefyd. Mae sawl cyfeiriad at un athrawes yn arbennig yn y dyddiau cynnar yma. Roedd Miss Kinsey yn dueddol i un ai fod yn absennol ar fore Llun neu i ddod i'w gwaith yn hwyr. Dydd Llun 12fed o Dachwedd 1901 oedd y trydydd dydd Llun iddi fethu â dod i'w gwaith, ac yn ôl Mr Moses:

"This has occurred without my consent."

Ys gwn i beth oedd yn mynd ymlaen ym mywyd Miss Kinsey ar y penwythnosau? Ar Dachwedd 26ain roedd hi 25 munud yn hwyr, a'r Llun wedyn roedd hi'n absennol heb esboniad. Erbyn y Nadolig roedd sefyllfa Miss Kinsey wedi mynd yn reit ddwys ac fe ysgrifennodd lythyr i'r ysgol i ddweud ei bod yn sâl ac na fyddai yn ei gwaith am o leiaf wythnos neu ragor. Ond roedd gwaeth i ddod.

Nid oedd golwg o Miss Kinsey ar ddiwrnod cyntaf y tymor newydd ar ôl y Nadolig. Erbyn hyn roedd Mr Moses wedi cael hen ddigon ac fe gysylltodd â'r Bwrdd Rheoli a phenderfynwyd ei diswyddo. Chafodd hyn ddim llawer o effaith ar Miss Kinsey gan iddi fod awr yn hwyr eto'r Llyn canlynol. Er mawr ryddhad i Mr Moses gadawodd Miss Kinsey yr ysgol ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1902. Mynegodd ei ryddhad drwy ysgrifennu yn y llyfr log:

"Miss Kinsey's teaching was so weak that the school has suffered considerably taking into consideration the work a good teacher could have done even under exceptional circumstances which the school has been placed since opening."

Mae'r llyfr log yn fwy na chofnod o ddigwyddiadau'r ysgol, mae hefyd yn adlewyrchu hanes lleol y cyfnod. Adlewyrchir tlogi'r dauddegau drwy gyfeirio at y Cyngor Sir yn darparu 21 pâr o esgidiau i ddisgyblion o deuluoedd tlawd a di-waith yr ardal. Ysgrifennwyd yn y llyfr log na fuasai pedair gwaith 21 pâr yn ymateb i'r galw am esgidiau i'r teuluoedd llwm yn Llanbradach.

Ceir cyfeiriad yn y llyfr log hefyd at ffrwydrad ym mhwl glo Llanbradach ar Fedi'r 11eg 1901 pan laddwyd wyth o'r gweithwyr tan ddaear. Danfonwyd y disgyblion adref a bu'r ysgol ar gau am weddill yr wythnos. Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, Mr E. J. Morgan oedd yr athro cyntaf o'r ysgol i'w alw i'r fyddin. Beth oedd ei hanes e?

Roedd presenoldeb y disgyblion yn bwysig iawn fel y mae yn ein hysgolion heddiw. Adlewyrchir ysbryd a natur y pentref yn y rhesymau a nodir dros absenoldeb disgyblion - wythnos cynhaeaf gwair, y syrcas yn ymweld â'r pentref, casglu mwyar duon a llus yn ychwanegol i heintiau'r cyfnod fel y frech goch, y fflw, y pās a'r dwymyn goch.

Does dim llawer wedi newid yn nod ac amcanion addysg ers troad y ganrif a rhaid diolch i'r athrawon cynnar fel Thomas Moses, Lilian Staniforth ac Edmund Evans am osod sylfaen gadarn i ddatblygiad addysg yn ein cymunedau.



Lleoliad Ysgol Coed y Brain yn Llanbradach (uchod)

a'r ysgol heddiw

Colofn Dafydd Islwyn

Mae rhywun yn dysgu ffaith newydd ryw ben i bob wythnos. Yn ystod wythnos olaf mis Medi'r llynedd dysgais i dad Waldo Williams, John Edwal Williams, fod yn athro am gyfnod yn fy hen ysgol. Bu'n athro, ganol wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn Ysgol Ramadeg Biwmares. Ym mis Medi 1952 newidiwyd ei henw, yn sgil ad-drefnu addysg uwchradd ar Ynys Môn, i Ysgol Gyfun David Hughes – fe'i henwyd ar ôl sylfaenydd ysgol ramadeg rydd yn y dre yn 1603. Ar ddechrau chwe degau'r ganrif ddiwethaf adeiladwyd ysgol newydd uwch y Fenai, ym Mhorthaethwy. Fe'i defnyddir fel cefndir yn



Ysgol David Hughes, Porthaethwy, fel y mae heddiw

'Rownd a Rownd' S4C. Ugain mlynedd ar ôl i dad Waldo Williams fod yr athro ym Miwmares, bu W. J. Gruffydd (1881 - 1954), ysgolhaig, bardd, llenor, beirniad a golygydd, yn athro ifanc yn yr ysgol o 1904 - 1906. Symudodd y flwyddyn honno i fod yn ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Yn 1909 priododd Gwenda, merch y Parchedig John Evans, gweinidog Abercarn. Yn Abercarn yr oedd yn byw pan weithiodd y gerdd 'Ynys yr Hud' yn 1913. Un o'i gwpledi mwyaf adnabyddus ydy cwpled clo ei soned 'Cefn Mabli':

Ychydig o'r hen wylo yn y glaw
Ychydig lwch yn Llanfihangel draw.

Yn Ionawr 1943 cynhaliwyd isetholiad Prifysgol Cymru ac fe etholwyd yr Athro W. J. Gruffydd gyda mwyafrif o 1768 pleidlais dros Saunders Lewis. Yn Llundain fe eisteddodd Gruffydd ar y pwyllgor a luniodd Ddeddf Addysg 1944 Butler. Sicrhodd W. J. Gruffydd le i'r Gymraeg yn y maes llafur addysgol. Eglurodd un hanesydd: dyma roddodd gychwyn ar y gadwyn o Ysgolion Cymraeg penodedig y mae'r galw amdanynt yn dal i gynyddu heddiw, yn yr unfed ganrif ar hugain!

Cysylltiadau â fy hen ysgol



Ugain mlynedd yn ddiweddarach, cefais swydd yn Ysgol Gynradd Trelewis. Bob bore Dydd Gŵyl Ddewi cynhelid eisteddfod yn yr ysgol. Rhannwyd pob dosbarth yn bedwar llys a oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Am nifer o flynyddoedd y gerdd a ddysgai fy nosbarth i'w chyd-adrodd oedd 'Ifan y Mul o'r Hendre' gan T. Llew Jones. Un flwyddyn penderfynais ddewis cerdd arall, 'Y Byd Mawr' gan Waldo Williams, ar y cyd ag E. Llwyd Williams, a'r cwpled clo ydy:

Ond af i'r gweithiau rywbryd er
mwyn cael gweld ble ma'r Hen
DreorciTonypandyAberdâr.

Penderfynais hefyd y byddai'r plant yn dysgu cwpled clo 'Y Tangnefeddwyr' i'w dweud ar derfyn pob diwrnod ysgol:

Gwyn ei byd yr oes a'u clyw,
Tangnefeddwyr, plant i Dduw.

Un flwyddyn yn ystod yr wythdegau, derbyniodd W. R. Evans, brodor o Fynachlogddu, wahoddiad i sgwrsio â Chymdeithas Gymraeg Caerffili. Cyn mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth gyntaf ar y chwith yn Ysgol Gymraeg Caerffili, oeddod. "Dyma'r stafell", meddai dan wenu yn falch, "y cysgodd Waldo a minnau ac eraill ynddi yn ystod Steddfod Caerffili....." Roedd ef yn un o ffrindiau pennaf Waldo. Golygodd James Nicholas edmygydd mawr arall o Waldo, gyfrol deyrnged iddo, 'Waldo'. Cyfraniad W. R. Evans i'r gyfrol ydy 'Waldo yn ei gyfanrwydd'. Meddai wrth gloi ei gyfraniad,

"Mae dadansoddi'r dyn mawr hwn, a'r bardd mawr hwn bron yn amhosib. Roedd yn bersonoliaeth mor gymhleth. Duw a'n gwaredo rhag i ni geisio ei hollti a'i rannu yn ddarnau bach dibwys. Efallai mai'r peth tecaf i'w ddweud amdano yw mai Waldo oedd Waldo; gŵr arbennig iawn."

Merched y Wawr

Cawsom noson gyfareddol yng nghapel Bethel ar Chwefror 25ain yng nghwmni Christine James, Prifardd, Archdderwydd ac uwch ddarlithydd y Gymraeg ym mhrifysgol Abertawe, wrth iddi ein swyno gyda detholiad o'i chyfrol o farddoniaeth *Rhwng y Llinellau*. I lawer ohonom ei gweld yng ngwisg Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn arwain yr Orsedd yw ein delwedd ohoni, ond wrth iddi ein tywys drwy ei cherddi cawsom gipolwg o Christine y ferch ddeuddeg oed a ddewisodd "Welsh" yn lle "French" yn Ysgol Ramadeg y Merched, y Porth, y Rhondda. Y dewis hwn oedd dechrau taith na freuddwydiai bryd hynny a fyddai yn ei harwain at ennill y Goron, a thrwy hynny at swydd yr Archdderwydd. Cyfres o gerddi rhydd ar thema agored a enillodd y Goron iddi yn Eisteddfod Eryri yn 2005 a'r cerddi hynny yw sail ei llyfr *Rhwng y Llinellau*. Wrth iddi ein harwain drwy engreiffitiau o'i barddoniaeth, gwelsom ddatblygiad Christine fel bardd. Aelwyd ddi-Gymraeg oedd yr aelwyd gartref yn Nhonypandy ond serch hynny roedd y Gymraeg yn bresennol yn y gymuned. Yn ei cherdd 'Wyna, Tŷ Newydd' mae'n cofio mynd i fferm ei thad-cu i weld yr ŵyn yn cael eu geni a chlywed y Gymraeg o'i chwmpas. Profiadau a safodd yn ei chof. Wedi astudio level A, aeth ymlaen i ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym mhrifysgol Aberystwyth. Rhyddiaith a ysgrifennai yn bennaf yn y coleg ond wedi salwch pan oedd yn America, a olygai lawdriniaeth a chyfnod hir o wella, dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth, a hyn o dan anogaeth ei ffrind Manon Rhys. Gwêl y blynyddoedd rhwng 2002 a 2005 fel y cyfnod y deffrowyd y bardd ynddi.



Noson Yng Nghwmni Christine James

Aethpwyd â ni drwy sawl emosiwn wrth i Christine drafod ei cherddi. Cawsom hwyl a chwerthin wrth wrando ar gerddi megis 'Wara Cwato' sy'n chwarae â sŵn geiriau tafodiaith y de-ddwyrain. Tristwch wedyn wrth gofio Aberfan yn 'Disgwyl'. Ysbrydolwyd nifer o'r cerddi gan ddarnau o gelf, e.e. cerflun Rodin, 'Y Gusan', yn y gerdd, 'Yr Arddangosfa', lle buont fel merched ysgol yn syllu'n hir ar y cerflun yn yr Amgueddfa Genedlaethol, cyn i'r athrawes eu brysio i ffwrdd i edrych ar y tseina! Aeth yr awr yn gyflym a phwyswyd arni i ddarllen mwy o gerddi i ni pan ddaeth at ddiwedd ei chyflwyniad. Mynegodd sawl un ei bwriad o fynd allan i brynu'r gyfrol; testament i noson lwyddiannus!

Eirlys Ashton

Cwis Llynoedd

Dim gwnglo!!!

1. Ar ba lyn y torrodd yr argae i foddi Dolgarog?
2. Ym mha lyn mae'r Gwyniad yn byw?
3. Ym mha llynoedd mae'r Torgoch yn byw?
4. O ba lyn y cododd menyw hardd?
5. Wrth pa lyn mae canolfan Richard Wilson yr artist?
6. Ym mha dalaith fydddech chi os yn sefyll wrth lyn Okeechobee?
7. Ym mha wlad mae llyn Baikal?
8. Beth yw enw'r llyn dŵr croyw wyaf yn Ne America, rhwng Bolifia a Pheriw?
9. Pu'n yw'r llyn mwyaf ym Mhrydain?
10. Pu'n yw'r llyn hiraf yn y byd?
11. Ar lan pa lyn mae Chicago?
12. Beth oedd enw'r llyn orlifodd i foddi New Orleans?

Digwyddiatur Mis Ebrill

Cyngerdd - Concert
Côr y Gleision

gyda - with
Lleucu Parri
 (Ffliwt - Flute)

Mared Browning
 (Telyn - Harp)

Eglwys Dewi Sant
 Caerdydd
 Nos Iau - Thursday
 16/04/2015
 19:30
 £6 Oedolion - Adults
 £4 Plant - Children

Tocynnau - Tickets
corygleision@gmail.com

Elw at - Proceeds for
Eisteddfod yr Urdd
Caerffili a'r Cylch 2015
 25/05 - 30/05



Côr Merched Caerffili

Ynghyd ag

Ysgol Gymraeg Caerffili

raffl



Capel Tonyfelin

7:00pm Gwener/Friday 24.4.15

Tocyn & Rhaglen £5

Lluniaeth

07954 135032



 **Caerphilly Miners**
 Centre for the Community
 Canolfan Glowyr Caerffili
 ar gyfer y Gymuned

Cyngerdd Cymraeg / A Welsh Concert

Ysgol Cwm Rhymni
Safle'r Gwyndy, Caerffili

Ebrill / April 21 7:00pm

Tocynnau / Tickets £3
Plant am ddim / Children free



Performing / Yn perfformio



Ysgol Gymraeg Caerffili
Ysgol y Castell
Ysgol Ifor Bach
Ysgol Cwm Rhymni
Côr Cwm Ni

Tocynnau ar gael o'r ysgolion / Tickets available from the schools
 neu/or Ffoniwch / Phone 07723492462

caerphillyminerscentre.org.uk

 Registered Charity Number: 361100

Pwyllgor Theatr Eisteddfod 2015 NOSON BLASU GWIN

Ysgol y Castell

Nos Wener, 24ain o Ebrill

£22

Tocynnau ar gael gan y Pwyllgor Theatr
 Lisa Williams lisawilliams1@btinternet.com

07940371445

Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk
 02920862428/07891916046

7:00

Cyfle i fwynhau 7 o winoedd
 bendigedig Sbaen ynghyd â
 chyflwyniad a cwis

Cyfle i brynu eich hoff winoedd!!

Clwb Cerdd Cwm Rhymni
Ysgol Lewis i Ferched

LYRIC ENSEMBLE

P'nawn Sadwrn, 25ain o Ebrill



2:30 £8/ £7.50

Triawd jazz yn chwarae darnau allan
o'u albwn diweddaraf

Côr Cwm Ni

YMARFER

Bob Nos Fawrth

6:30

Ysgol Trelyn

Pwyllgor Apêl Caerffili

CWIS

(Cwisfeistr, Gwyn Griffiths)

7:30

Clwb Golff Caerffili

30ain o Ebrill

£5

Cerddoriaeth Fyw!

Gyda : **Red Jam**

Dewch yn llw i godi arian dros Eisteddfod yr

Urdd Caerffili!!!

raffle

ROC/POP/JAZZ



Clwb Rygbi Bedwas

7.30 Nos Wener 16.5.15

Tocynnau £5

Cysylltwch â Peter Jones: 07964178392

NEU

Nerys Porch: 07917766767

Ocsiwn!

Ocsiwn!

Aelwyd y Gwyndy

BOB NOS FERCHER

5:30 – 7:30

Blynnyddoedd 7, 8 a 9

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Safle'r Gwyndy

Cyswllt: Bethan Jones, Morgan Roberts
neu'r Fenter Iaith

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

Cyfras nesa' ein grwp trafod:

Pobl a Gyfarfu Iesu

(Gyda deunyddiau dwyieithog - addas i
ddysgwyr)

7.30 - 8.30 yr hwyr,

Nos Fawrth 14, 21, 28 Ebrill,

5 a 12 Mai.

Astudio/trafod/gweddio/paned

Croeso i bawb!

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk

01443 813617

Menter Iaith Sir Caerffili

SADWRN SIARAD

Dydd Sadwrn

Ebrill 25ain

Capel Stryd Lewis

Ystrad Mynach

10 – 12 yp

Manylion cysylltu â'r uchod:

Menter Iaith: menter@caerffili.org 01443 82091

Bethan Jones: bethanjones@mentercaerffili.org

01443 820913

Morgan Roberts: morgan@urdd.org

Marian Fairclough: faircloughme@aol.com

029 20885151

!!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!! TACSI GORSAF CAERFFILI





Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195

[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)


**Defnyddiwch eich Cardiau
Debyd/Credyd**

Posau'r Plant

Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun



Allwch chi ffitio'r geiriau hyn i mewn i'r rhwyll?



pasg gwanwyn rhuban siocled
cywion plu melyn wyau

Chwilair—Llynoedd Cymru

t	c	l	y	w	e	d	o	g	p
r	r	b	r	a	n	m	a	a	e
y	a	y	r	d	a	c	d	a	r
w	f	w	o	y	i	a	i	c	i
e	n	n	g	l	r	n	g	i	s
r	a	r	w	n	b	t	e	a	n
y	n	y	e	a	i	r	t	r	w
n	t	f	n	y	l	e	w	c	c
g	i	n	e	r	b	f	b	o	y

Padarn Peris Briane Tegid Cantref
Clywedog Cwellyn Ogwen Llydaw Tryweryn
Crafnant Bran Brenig Fyrnwy
Crai Y Cwn

Cwmni

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd: Marian Fairclough
faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas
e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones
benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Digwyddiadur: Lowri Jones
Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid:
Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

Tanysgrifio:
Marian Fairclough a Jan Penney

Dyluniwr:
Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

Argraffwyr: Tower Print (Caerffili)

*Cyhoeddir "Cwmni" gan y Bwrdd
Golygyddol.*

***Cedwir pob hawl i olygu, newid neu
gwthgi ar unrhyw gyfraniad yn ôl
gofynion gofod.***

Mae llyn tipyn pellach i ffwrdd yn cuddio hefyd

Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis a Mary Jones



Ymhell bell yn ôl : Long, long ago
cynaeafu'r ŷd : harvested corn
â phladur : with a scythe
cybyddlyd : miserly
cyfarth yn ddi-baid : barked without ceasing
angau yn agosau : death approaching
ei gyflwr : his condition
sylweddolodd : he realised
gallai gyfrif y dyddiau oedd ar ôl ganddo :
he could count the days left to him:
ei feibion : his sons
fy holl drysor : all my treasure
i'w ddarganfod e : to discover it
wedi ei gladdu : buried
fel caethweision : like slaves
cloddio'n ddwfn : dig deep
chwalwyd eu gobeithion : their hopes were
shattered
pentwr o greigiau du : a pile of black rocks
coed tân : firewood
pan daniodd y creigiau du : when the black
rocks caught fire
llosgi : burn
deallodd y brodyr : the brothers understood
gwerth eu hetifeddiaeth : the value of their
inheritance
glo : coal

Wel, mae Iestyn yn dal i gerdded trwy Gwm Rhymni. Mae e'n mwynhau gweld y golygfeydd a darllen y storïau, ond a dweud y gwir mae e dipyn bach yn unig. Mae e'n gobeithio y bydd Blodwen yn cerdded gyda fe cyn bo hir!

TRYSOR YR HEN ŴR

Ymhell bell yn ôl, pan oedd ffermwyr yn *cynaeafu'r ŷd â phladur*, roedd hen ŵr *cybyddlyd* yn ffermio yn Gilfach Fargoed. Un dydd, fe aeth e'n dost ac roedd ei gi yn *cyfarth yn ddi-baid* y tu allan i'r ffermdy. Roedd yr hen ŵr yn gwybod nawr ei fod yn mynd farw achos bod cŵn yn gallu gweld *angau yn agosau*.

Wrth feddwl am *ei gyflwr*, *sylweddolodd y gallai gyfrif y dyddiau oedd ar ôl ganddo* ar fysedd un llaw, Felly fe ddanfonodd am *ei feibion* a dweud "Fy annwyl feibion, mae fy mywyd ar ben. Cyn bo hir fydda i ddim gyda chi ond rwy'n gadael *fy holl drysor* i chi. Y mae *wedi ei gladdu* ar fy nhir, ond rhaid *cloddio'n ddwfn i'w ddarganfod e*."

Wedi i'r hen ŵr farw, bu 'r meibion yn *cloddio fel caethweision* i ddarganfod y trysor. Ond *chwalwyd eu gobeithion* ar ôl ffeindio dim ond *pentwr o greigiau du*.

Roedd eisiau bwyd arnyn nhw ar ôl eu gwaith caled ac fe aethon nhw i chwilio am *goed tân* er mwyn coginio bwyd. Cawson nhw sioc *pan daniodd y creigiau du a llosgi fel coed*. Ond dyna sut *deallodd y brodyr faint oedd gwerth eu hetifeddiaeth*. Fe werthon nhw'r *glo* oedd ar eu tir a gwneud arian mawr.



Llun y Mis



Ein harlunydd y mis yma
yw Lindsay Morgan. Mae
Lindsay yn byw yng
Nghasnewydd.

Roedd hi'n dysgu
Astudiaeth Busnes yn
Nhrefonnen (Nash) ger
Casnewydd cyn ymddeol.

Ymunodd hi â Grŵp Dydd
Gwener ar ôl gwneud sawl
cwrs ym Medwas.

Mae hi'n hoffi gweithio
mewn dyfrliwiau ac
acrylig. Acrylig yw'r llun
hwn o dŷ ar Ynys Gozo,
ger Malta.

Cynhelir arddangosfa o
gynnyrch dosbarthiadau
Canolfan Bedwas, gan
gynnwys Grŵp Dydd
Gwener, yn y Ganolfan,
ddydd Gwener, 24ain o fis
Ebrill rhwng 10 a 4 o'r
gloch.

Rhan o weithgareddau
elusen y Ganolfan yw hyn.

Cerdd y Mis

Y Groeswen

Hen fynwent y cyfiawnion - y llannerch
Lle huna enwogion,
Rhyw wely i anfarwolion
Yw enw tir y fynwent hon.

Llwythog yw'r pridd pob llathen – o lwch beirdd
Gloewach byd – mae'r awen
A rhyw barch i'r dywarchen
A'r gro sy' ar y Groeswen.

Wacyn Wyn

Sain Ffagan

Mae urddas oesoedd wrthyt ti ynghlwm
A thwf canrifoedd lle bu allor gynt.
Mae ywen gysegredig yn y cwm
Ac adlais hen baderau'n gwanu'r gwynt.
Edrydd dy gastell wychder oes a fu
A chrefft y Norman iddo'n fythol dras;
Trysorwyd rhwng ei furiau greiriau lu
O dranc dinodedd llawer bwth a phlas,
Pan ddelo dydd i'r patrwm droi yn ffaith,
Pob men a dodrefn yn ei le ei hun;
Y crefftwyr yn eu gweithdai wrth eu gwaith
A hen draddodiad ymhob lliw a llun,
Bydd hen fythynnod Cymru iti'n stad
A'th erddi heirdd yn falchder gwerin gwlad.